



10.04.2025

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Gobeithio bod popeth yn iawn gyda chi. Rwy'n ysgrifennu atoch i gyflwyno fy hun fel Mentor Arweiniol newydd y Chweched Dosbarth, rôl y byddaf yn camu iddi ar ôl y Pasg.

Yn gyntaf, hoffwn gymryd eiliad i fynegi fy niolchgarwch i Heather am ei 10 mlynedd o ymroddiad anhygoel wrth gefnogi myfyrwyr Chweched Dosbarth Aberconwy. Mae ei gwaith caled a'i hymrwymiad wedi gosod safon uchel, ac rwy'n dymuno'r gorau iddi yn ei rôl newydd. Gwnaf fy ngorau glas i barhau â'r gwaith gwych y mae hi wedi bod yn ei wneud.

Rwy'n teimlo'n gyffrous iawn wrth ymgymryd â'r rôl newydd hon, ar ôl treulio'r 12 mlynedd diwethaf fel mentor arweiniol i fyfyrwyr ym Mlynnyddoedd 7-11. Efallai bod llawer ohonoch eisoes yn f'adnabod o'r llynedd, pan fûm yn cefnogi Blwyddyn 11 - Blwyddyn 12 bellach - ac rwy'n falch iawn o gael y cyfle i weithio gyda nhw eto (gobeithio eu bod nhw'r un mor falch o'm cael i'n ôl!) Fel rhiant o ddau blentyn sydd ar hyn o bryd yn y brifysgol, mae gennyf hefyd brofiad uniongyrchol o fynd i'r afael â'r newid o'r ysgol i addysg uwch, gan gynnwys y prosesau UCAS a chyllid myfyrwyr. Rwy'n sicr y bydd y persbectif hwn yn werthfawr wrth gefnogi myfyrwyr a'u teuluoedd.

Mae croeso i chi gysylltu â mi ar ôl y Pasg os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os gallaf fod o unrhyw gymorth.

Yn olaf, hoffwn ddymuno pob llwyddiant i'n myfyrwyr Blwyddyn 13 anhygoel yn eu camau nesaf, boed hynny'n brifysgol, prentisiaethau, neu anturiaethau newydd cyffrous eraill.

Gwyliau Pasg hyfryd i chi gyd, ac edrychaf ymlaen at weithio ochr yn ochr â chi i gefnogi ein myfyrwyr.

Yn gywir,

Mrs Bethan Wigzell
Mentor Arweiniol Chweched Dosbarth

Dear Parent/Guardian,

I hope this message finds you well. I am writing to introduce myself as the new 6th Form Guidance Mentor, a role I will be stepping into after Easter.

Firstly, I would like to take a moment to express my gratitude to Heather for her incredible 10 years of dedication in supporting Aberconwy 6th form students. Her hard work and commitment have set a high standard, and I sincerely wish her all the best in her new role. I will do my utmost to continue the excellent work she has established.

I am excited to take on this new role, having spent the last 12 years as a guidance mentor for students in Years 7-11. Many of you may already know me from last year, when I supported Year 11—now Year 12—and I am delighted to have the opportunity to work with them again (I hope they are just as pleased to have me back!). As a parent of two children currently at university, I also have first hand experience navigating the transition from school to higher education, including the UCAS and student finance processes. I am sure this perspective will be valuable in supporting students and their families.

Please don't hesitate to get in touch after Easter if you have any questions or if I can be of any assistance.

Finally, I would like to wish our amazing Year 13 students every success in their next steps, whether that be university, apprenticeships, or other exciting new adventures.

Wishing you all a wonderful Easter break, and I look forward to working alongside you in supporting our students.

Yours faithfully,

Mrs Bethan Wigzell
Sixth Form Guidance Mentor

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE